Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23

Mawrth 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# **Craffu ar Gyfrifon:** Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23

Mawrth 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ **5**

**Argymhellion** ........ **7**

**1. Cefndir** ........ **9**

**2. Y Comisiynydd Newydd** ........ **11**

**3. Perfformiad** ........ **14**

Ein barn ni ........ 15

**4. Defnyddio adnoddau** ........ **19**

Cyllid ........ 19

Staff ........ 22

Arferion gwaith ........ 24

Cyfansoddiad staff a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ........ 25

**5. Llywodraethu** ........ **29**

Archwilio mewnol ........ 29

Polisi Caffael ........ 30

Risgiau ........ 31

Ein barn ni ........ 32

**6. Y tu hwnt i 2022-23** ........ **34**

Cyllidebau ........ 34

2023-24 ........ 34

2024-25 ........ 35

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar** ........ **37**

**Atodiad 1: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **38**

Gwybodaeth Ychwanegol ........ 38

# Rhagair y Cadeirydd

Ers 2014, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol – a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, erbyn hyn – wedi cynnal gwaith craffu blynyddol ar gyfrifon ac adroddiadau blynyddol sefydliadau amrywiol a ariennir yn gyhoeddus, ochr yn ochr â'i waith craffu blynyddol ar gyfrifon Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru.

Un o'r cyrff cyhoeddus y mae gennym ddiddordeb mawr ynddo yw Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Bu'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn cynnal gwaith craffu ar y cyfrifon cyntaf a baratowyd gan y Comisiynydd cyntaf yn ôl yn 2017, ac ym mis Mawrth 2021. At hynny, cyhoeddodd adroddiad, 'Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yma', a oedd yn nodi canfyddiadau ei ymchwiliad ynghylch y rhwystrau i roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith.

Ers hynny, rydym hefyd wedi cynnal adolygiad o Gomisiynwyr Cymru, a nododd nifer o faterion y byddwn yn ymchwilio iddynt yn yr adroddiad hwn ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer 2022-23. Gyda Chomisiynydd newydd wedi'i benodi ym mis Mawrth 2023, roeddem o'r farn ei bod yn bwysig trafod a deall cyfeiriad newydd Swyddfa'r Comisiynydd, yn enwedig yn y cyfnod hwn o gyfyngiadau ariannol ac ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol.

Er bod ein gwaith craffu ar gyfrifon yn rhoi cyfle i ni archwilio materion llywodraethiant a rheolaeth ariannol, mae hefyd yn bwysig o ran ein helpu i ddeall amcanion perfformiad a dyheadau sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn ein galluogi i asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ffordd y mae'r cyrff hyn yn defnyddio arian cyhoeddus.

Ar y cyfan, rydym yn ystyried bod Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn sefydliad sy'n cael ei redeg yn dda, ac yn meddu ar uchelgais i fod yn arloesol. Fodd bynnag, erys nifer o feysydd lle y gellid gwella didwylledd a thryloywder, ac rydym wedi gwneud argymhellion i'r perwyl hwn.

At hynny, rydym yn croesawu rhai o'r mentrau a'r cynlluniau sydd gan Swyddfa'r Comisiynydd ar waith i gynyddu amrywiaeth yn ei gweithlu, a bwrw ymlaen ag arferion gwaith arloesol. Bydd angen monitro'r rhain yn ofalus i weld a ydynt yn cynhyrchu'r canlyniadau sy'n ddymunol.



**Mark Isherwood AS,**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifion Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn ystyried cyhoeddi gwybodaeth am gyfarfodydd ei Banel Cynghori. ........................................ Tudalen 13

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor am ddatblygiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol ei swyddfa, gan gynnwys targedau rhifol ac ariannol, unwaith y bydd y rhain wedi'u gosod. ........................................ Tudalen 16

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU am amserlen gliriach ar gyfer darparu gwybodaeth bob blwyddyn i lywio'r broses o baratoi'r gyllideb. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi manylion i ni am sut mae'n cysylltu â Llywodraeth y DU i gael mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch cyllid. ........................................ Tudalen 18

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi rhagor o wybodaeth i ni am ad-drefnu ei strwythur staffio, y costau cysylltiedig, trosolwg o'r prosesau i gytuno ar y newidiadau hyn a sicrwydd bod ganddo ddigon o staff wrth symud ymlaen. ........................................ Tudalen 26

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi manylion i ni am unrhyw newidiadau a wnaed i rolau a chyfrifoldebau'r Pennaeth Cyllid sydd newydd ei benodi a'r penderfyniad i newid teitl swydd y Cyfarwyddwr Cyllid. Gofynnwn i'r Comisiynydd roi sicrwydd bod y rôl newydd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. ........ Tudalen 26

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynghori a fydd yn gallu parhau i roi sicrwydd inni ynghylch y cymorth a ddarperir gan y tîm cyrff cyhoeddus i'r cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf, y defnyddiodd ei swyddfa ei chronfeydd wrth gefn ar eu cyfer yn 2022- 23. ........................................ Tudalen 27

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn rhoi diweddariad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ymhen chwe mis ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan ei swyddfa i ddatblygu model ar gyfer codi tâl am wasanaethau i gynhyrchu adnoddau ychwanegol. ........................................ Tudalen 27

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn diweddaru'r Pwyllgor ymhen blwyddyn ynghylch cyflwyno Academi Arweinyddiaeth ei swyddfa a Rhaglen Ryngwladol Llywodraeth Cymru. ........................................ Tudalen 27

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn rhannu gyda'r Pwyllgor ganlyniadau'r adolygiad sy'n cael ei gynnal o'r fenter wythnos waith fyrrach sy'n cael ei gweithredu yn ei swyddfa. Hoffai'r Pwyllgor hefyd weld tystiolaeth gliriach o sut mae'r fenter hon yn arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant a llesiant staff. ........ Tudalen 27

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor, ymhen blwyddyn, ar y gwaith a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i ddenu a recriwtio pobl anabl yn y gweithlu yn Swyddfa'r Comisiynydd. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi diweddariad i ni, ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-24, am waith Archwilio Mewnol, gan gynnwys nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd........ Tudalen 32

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth am y risgiau a wynebir gan ei swyddfa yn ei Adroddiad Blynyddol, fel sy'n ofynnol gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiynydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw, fel yr awgrymodd efallai y byddai'n dymuno ei wneud, wedi adolygu'r adnoddau y gofynnwyd amdanynt ar gyfer 2024-25 yn dilyn cyhoeddi ei strategaeth newydd a'r weldigaeth hirdymor ar gyfer ei swyddfa, 'Cymru Can'. Dylai hyn gynnwys asesiad o'r effaith o ystyried bod y cyllid a ddyrannwyd yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn llai na swm yr adnoddau y mae'r Comisiynydd yn gofyn amdanynt yn ei Amcangyfrif Statudol........ Tudalen 36

# 1. Cefndir

**1.** Sefydlwyd swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ('y Comisiynydd') o dan Ran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ("y Ddeddf"), gyda chyfrifoldeb am hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhlith cyrff cyhoeddus, yn amodol ar ofynion y Ddeddf.

**2.** Roedd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, sef y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn ymddiddori'n frwd yng ngwaith y Comisiynydd ac, ym mis Hydref 2017, bu'n craffu ar y cyfrifon cyntaf a baratowyd gan y Comisiynydd cyntaf. Roedd y rhain yn cwmpasu'r cyfnod o 14 mis o'r dyddiad y sefydlwyd y swydd, sef 1 Chwefror 2016, i 31 Mawrth 2017.

**3.** Gwnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bum argymhelliad yn ei Adroddiad, 'Craffu ar gyfrifon 2016-17'[1], yn ymwneud yn benodol â'r Comisiynydd (Argymhellion 5 i 9). Ym mis Mawrth 2018, ymatebodd y Comisiynydd cyntaf i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**4.** Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei adroddiad, 'Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: y stori hyd yn hyn', sy'n nodi canfyddiadau ei ymchwiliad, Rhwystrau i Weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus.

**5.** Roedd yr ymchwiliad yn deillio o ddyletswydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i archwilio a pharatoi adroddiad yn ystyried i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus perthnasol wedi gweithredu yn unol â'r "egwyddor datblygu cynaliadwy" wrth benderfynu ar y camau i'w cymryd i gyflawni "amcanion llesiant".

**6.** Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad statudol cyntaf ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a hynny'n unol â'r gofyniad iddo fod ar gael 12 mis cyn etholiadau'r Senedd. Bydd angen cyhoeddi adroddiad tebyg cyn diwedd tymor nesaf y Senedd.

**7.** Mae gofyniad tebyg ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a chyhoeddwyd ei hadroddiad cyntaf hithau ym mis Mai 2020.

**8.** Cyfarfu Fforwm y Cadeirydd ym mis Mawrth 2020 a chytunwyd y byddai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn arwain ar y gwaith o archwilio'r adroddiadau hyn.

---

[1] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2016-17, Chwefror 2018

**9.** Cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol waith craffu blynyddol ar waith y Comisiynydd cyntaf. Yn ei adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022, argymhellodd fel a ganlyn:

> *... bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnal adolygiad o drefniadau adnoddau Comisiynwyr Cymru. Gallai'r adolygiad hwn ystyried a oes modd sicrhau unrhyw arbedion maint drwy rannu rhai swyddogaethau cefn swyddfa a staff".*

**10.** Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad, 'Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru', ym mis Gorffennaf 2023. Gwnaeth 16 argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Ym mis Awst, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb i'r adroddiad[2]. At hynny, gwnaeth y Comisiynydd ysgrifennu at y Pwyllgor ar ôl iddo gyhoeddi ei adroddiad.

**11.** Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei adroddiad yn dilyn ei wrandawiad cyn penodi gyda'r darpar ymgeisydd ar gyfer rôl y Comisiynydd, Derek Walker.

**12.** Roedd y Pwyllgor hwn hefyd wedi nodi materion yn ymwneud ag arferion caffael yn Swyddfa'r Comisiynydd a chyfeirir at y rhain yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Ar 26 Ionawr 2023, nododd y Pwyllgor hwn, yn breifat, fod y Cadeirydd wedi cael pryderon gan aelod o'r cyhoedd ynghylch caffael gwaith a gomisiynwyd gan y Comisiynydd cyntaf.

**13.** Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y materion hyn gyda'r Comisiynydd newydd, ar ôl ei benodi/phenodi, ac fel rhan o'i waith craffu ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd. Rhoddodd ein gwaith ystyriaeth i waith y pwyllgor a'n rhagflaenodd ac argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, ochr yn ochr â materion a godwyd yn ymwneud ag Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2022-23.

[2] Llythyr gan Lywodraeth Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 29 Awst 2023

# 2. Y Comisiynydd Newydd

**14.** Dechreuodd Derek Walker ei swydd ar 1 Mawrth 2023 yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru[3] ynghylch ei benodiad ym mis Rhagfyr 2022. Fe olynodd Sophie Howe, sef y Comisiynydd cyntaf, ac a fu yn y swydd am gyfnod penodol o saith mlynedd, fel y nodir ym mharagraff 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf[4], rhwng 1 Chwefror 2016 a 31 Ionawr 2023.

**15.** Gwnaethom nodi mai hwn oedd yr adroddiad blynyddol cyntaf a gymeradwywyd gan y Comisiynydd newydd, a hynny ar adeg pan yr oedd ond wedi bod yn y swydd ers mis olaf y cyfnod yr oedd yn berthnasol iddo. Felly, gwnaethom ofyn pa sicrwydd penodol a geisiodd y Comisiynydd cyn cymeradwyo'r adroddiad.

**16.** Eglurodd y Comisiynydd ei fod wedi edrych ar ba waith a oedd wedi'i wneud ac i ba ansawdd. Cyfeiriodd at nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol a mesurau llwyddiant a oedd wedi'i alluogi i 'gael ymdeimlad o ble yr ydym wedi cyflawni yn erbyn y DPA hynny'.[5] Eglurodd hefyd ei fod wedi gofyn am sicrwydd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch gwahanol agweddau ar waith y swyddfa.

**17.** Bu'r Pwyllgor yn archwilio myfyrdodau'r Comisiynydd ar ei fisoedd cyntaf yn y swydd a'i farn ar y ffordd y caiff y sefydliad ei drefnu a'i redeg.

**18.** Dywedwyd wrthym fod y sefydliad mewn 'lle da' ond eglurodd y Comisiynydd fod ei benodiad yn gyfle da i ddod â phersbectif newydd i'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg[6]. Nododd nifer o ffyrdd yr oedd gwelliannau'n cael eu gwneud i'r sefydliad, gan gynnwys cryfhau prosesau caffael a gwella seiberddiogelwch.

**19.** Ychwanegodd fod set newydd o werthoedd wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys un i gynyddu tryloywder, sydd yn ymarferol yn cynnwys cyhoeddi cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r gofrestr anrhegion ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y swyddfa.[7]

**20.** Gwnaethom nodi bod Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd newydd yn dilyn strwythur, arddull a naratif adroddiadau'r Comisiynydd blaenorol. Gwnaethom

[3] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg 'Cyhoeddi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd Cymru', 7 Rhagfyr 2022
[4] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[5] Cofnod y Trafodion, paragraff 14
[6] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2022, paragraff 9
[7] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2022, paragraff 10

holi i ba raddau yr oedd y Comisiynydd newydd yn gallu dylanwadu ar yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23, a pha gynlluniau, os o gwbl, oedd ganddo i newid cyflwyniad adroddiadau yn y dyfodol.

**21.** O ystyried bod y Comisiynydd yn gymharol newydd i'w rôl, dywedwyd wrthym 'ei bod yn gwneud synnwyr i ddilyn y strwythur a oedd gennym yn flaenorol i raddau helaeth'[8]. Fodd bynnag, clywsom am gynllun y Comisiynydd i fabwysiadu dull gwahanol yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y bydd rhaglen waith newydd gyda ffocws gwahanol i'r un o'r blaen. Ychwanegodd:

> *"I think it may be that we will produce shorter reports as well. Some of the reports, I think, that we have produced as the Commissioner have been very long, and I think, sometimes, that doesn't help with communicating the messages that we want to communicate. So, we will look to see, whilst providing the necessary information, how we can make the document as accessible as possible and as concise as possible."*[9]

### Ein barn ni

**22.** Rydym yn croesawu penodiad y Comisiynydd newydd a'i ymrwymiad a'i frwdfrydedd dros archwilio syniadau newydd, gan gynnwys ffocws ar raglen waith newydd. Credwn fod hyn yn rhoi cyfle i adfywio gwaith swyddfa'r Comisiynydd ac adeiladu ar ffyrdd presennol o weithio a'u gwella.

**23.** Rydym yn nodi, ym mis Tachwedd 2023, fod y Comisiynydd wedi cyhoeddi ei strategaeth newydd ar gyfer 2023 i 2030 a'i weledigaeth hirdymor, "Cymru Can"[10]. Mae'n dweud ei fod yn "crynhoi'r dull y bwriadwn ei fabwysiadu dros y saith mlynedd nesaf, yn rhoi trosolwg o'r ffordd y byddwn yn gweithio ac yn amlinellu sut y byddwn yn mesur ein heffaith."[11]

**24.** Rydym hefyd yn croesawu penderfyniad y Comisiynydd i gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn ystod ei waith craffu ar gyfrifon, nododd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd y gwrthgyferbyniad yn yr wybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd mewn perthynas â chyfarfodydd byrddau a phwyllgorau gan rai cyrff cyhoeddus, megis byrddau iechyd lleol, a chyrff eraill yn

[8] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2022, paragraff 16
[9] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 16
[10]Mae "Cymru Can - y strategaeth newydd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru - yn dweud bod yn rhaid i'r gyfraith llesiant weithio'n galetach", Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, 14 Tachwedd 2023
[11] "Cymru Can: ein G weledigaeth a'n Pwrpas", Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru,

y sector cyhoeddus. Gofynnodd i Lywodraeth Cymru adolygu hyn gyda chyrff eraill yng Nghymru i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio. Mae'r Pwyllgor hwn wedi parhau i archwilio hyn yn ystod ei waith craffu ar gyfrifon, gan gynnwys gyda Llywodraeth Cymru.[12]

**25.** Yn unol â Deddf 2015, mae gan y Comisiynydd Banel statudol, y Panel Cynghori, i gynghori ar arfer ei swyddogaethau. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Panel Cynghori yn rhan o'i drefniadau atebolrwydd.[13] Nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw wybodaeth yn y parth cyhoeddus am y cyfarfodydd hyn. Rydym o'r farn bod cyhoeddi gwybodaeth am gyfarfodydd o'r fath yn caniatáu i'r cyhoedd weld sut y gwneir penderfyniadau. Mae hyn yn hyrwyddo bod yn agored a thryloywder, gan ddangos atebolrwydd i drethdalwyr Cymru. Felly, rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn ystyried cyhoeddi gwybodaeth am gyfarfodydd ei Banel Cynghori.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn ystyried cyhoeddi gwybodaeth am gyfarfodydd ei Banel Cynghori.

**26.** Rydym yn croesawu barn y Comisiynydd ar gwtogi hyd yr adroddiadau a gynhyrchir gan ei swyddfa fel eu bod yn fwy hygyrch ac yn gallu mynegi gwaith ei swyddfa yn well, yn ogystal â darparu gwybodaeth mewn ffordd gliriach a chryno.

---

[12] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon – Llywodraeth Cymru 2021-22, Hydref 2023
[13] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 12

# 3. Perfformiad

**27.** Gwnaethom archwilio sut mae'r Comisiynydd yn mesur llwyddiant ei swyddfa a sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol gan nad oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA). Clywsom sut y defnyddiodd swyddfa'r Comisiynydd 'nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol, a mesurau llwyddiant'[14] i fonitro perfformiad.

**28.** Gan na wnaeth y Comisiynydd adrodd ar berfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23, gwnaethom holi am yr hyn yr oedd swyddfa'r Comisiynydd wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ac a oedd yr adroddiad yn asesiad cytbwys.

**29.** Eglurwyd mai nod yr Adroddiad Blynyddol oedd darparu gwybodaeth am sawl maes gan gynnwys cyflwyno'r Comisiynydd newydd, adroddiad ar weithgarwch blynyddol, a rhoi trosolwg o waddol ac effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) hyd yn hyn.[15]

**30.** Clywsom fod yr adroddiad yn tynnu sylw at faterion sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol, yn ogystal â nifer o faterion cyfredol y mae swyddfa'r Comisiynydd wedi bod yn gweithio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys anghydraddoldebau, newid hinsawdd a'r argyfwng costau byw. Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn nodi'r gwaith a wnaed i gyflawni dyletswyddau statudol y swyddfa, darparu cyngor i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus, rhannu arfer da o amgylch y Ddeddf, hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy a chyflwyno ail garfan yr Academi Arweinyddiaeth.[16]

**31.** Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wrthym hefyd ei bod wedi ymrwymo i Dim Hiliaeth Cymru ac wedi cyhoeddi ei strategaeth gwrth-hiliaeth ei hun, gyda'r nod o fynd i'r afael â chynrychiolaeth ac amrywiaeth ei gweithlu. Mae hefyd yn ceisio parhau i leihau ei garbon[17]. Nododd y Comisiynydd y byddai angen mesurau newydd i adlewyrchu'r rhaglen waith newydd, yr ydym yn cyfeirio ati yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Roedd wedi bod yn gweithio gydag ymgynghorydd i ddarparu rhywfaint o gefnogaeth a her allanol o ran sut mae ei swyddfa yn mesur ei llwyddiant. Byddai'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cynnwys:

[14] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 14
[15] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 33
[16] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 35
[17] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 35

> *"… categories of what we've done, the impact of our training, what we do in terms of sharing good practice, who we've reached, the difference that's been made by our advice, the difference that's been made by our convening, and the difference that's been made by our advocating. Underneath each one of those there are different KPIs that give us an indication of where we've made an impact".*[18]

**32.** Gwnaethom holi'r Comisiynydd ynghylch sut y byddai'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn yn fesuradwy, fodd bynnag, nid oedd yn gallu darparu targedau rhifol ar yr adeg honno gan nad oedd y rhain wedi'u gosod.[19] Dywedwyd wrthym ei bod yn cymryd amser i osod y targedau hyn gan nad oedd data o'r math hwn wedi cael eu casglu o'r blaen ac nid oedd llinell sylfaen i asesu o ble i ddechrau. Ychwanegodd y Comisiynydd:

> *"The other reason, of course, is that we don't know what our budget will be for next year, so that will affect what we can deliver. So, as we go through the next few weeks and months when we've got a better idea of the budget that we'll be having as an organisation, that will enable me to set more accurate KPI's".*[20]

## Ein barn ni

**33.** Nodwn, ar adeg ein sesiynau tystiolaeth, nad oedd y Comisiynydd wedi cyhoeddi ei raglen waith newydd a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig.

**34.** Yn Cymru Can, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023, mae'r Comisiynydd yn nodi gwybodaeth am sut y bydd y swyddfa hon yn mesur effaith y rhaglen newydd. Mae'n dweud y bydd ei swyddfa yn canolbwyntio ar saith maes monitro a gwerthuso, sydd wedi'u rhestru, ond ychwanegodd:

> *"As we move into implementing Cymru Can we will develop these further into a series of Key Performance Indicators."*[21]

**35.** Yn ei lythyr yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Comisiynydd fod y canlyniadau yn Cymru Can "yn cael eu mireinio ymhellach yn ddangosyddion

[18] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 19
[19] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 25
[20] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 28
[21] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Cymru Can. Tachwedd 2023

perfformiad allweddol a cherrig milltir, a fydd yn cael eu cynnwys yn y Map Llwybr tair blynedd, o 1 Ebrill 2024."[22]

**36.** Yn dilyn cyhoeddi'r Map Llwybr ym mis Ebrill, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad am y data ar gyfer monitro perfformiad oherwydd clywsom nad oedd rhai wedi cael eu casglu o'r blaen ac nid oes llinell sylfaen o ble y gellid dechrau asesu perfformiad.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor am ddatblygiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol ei swyddfa, gan gynnwys targedau rhifol ac ariannol, unwaith y bydd y rhain wedi'u gosod.

**37.** Mae'n bwysig bod y Comisiynydd yn cynnwys, yn ei Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol, wybodaeth am effaith ei raglen waith newydd, gan nodi'n glir sut y cafodd ei fesur. Dylai'r Comisiynydd hefyd gynnwys, yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-24, ddiweddariad am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r cerrig milltir y mae ei swyddfa wedi cytuno arnynt, gyda pherfformiad yn cael ei adrodd yn rheolaidd yn eu herbyn mewn Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol.

**38.** Rydym hefyd yn deall yr anawsterau y gallai'r sefyllfa gyllidebol eu cyflwyno i swyddfa'r Comisiynydd a'r effaith y gallai hyn ei chael ar yr hyn y gall ei swyddfa ei gyflawni.

**39.** Yn ein hadroddiad, yr Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru, gwnaethom nodi tystiolaeth gan y Comisiynwyr ynghylch y ffaith y gallent gael cadarnhad o'u cyllidebau yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, ar adeg heb ei diffinio. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar eu cynllunio ariannol, yn enwedig o ran adnoddau staffio ac mae hyn yn creu ansicrwydd.

**40.** Gwnaethom nodi yn yr adroddiad hwnnw:

> 'Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i Gomisiynwyr cyn dechrau eu paratoadau cyllidebol i gefnogi eu blaengynllunio ariannol. Rydym yn croesawu cadarnhad Llywodraeth Cymru ei bod yn rhannu ei thybiaethau ar gynllunio a phwysau yn ystod ei hymgysylltiad â Chomisiynwyr. Nodwn fod swyddogion yn cyfarfod i drafod y cyllidebau. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol a oes amserlen ar gyfer trafodaethau o'r fath, ac ar gyfer rhannu gwybodaeth. Fel y cyfryw, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi

[22] Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23, 5 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)

sicrwydd drwy osod amserlen ar gyfer pryd y bydd yn darparu gwybodaeth bob blwyddyn. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fydd wedi cytuno ar yr amserlen y mae'n bwriadu ei mabwysiadu.'[23]

**41.** Gwnaethom hefyd gynnwys argymhelliad yn yr adroddiad:

*Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cytuno ar amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth bob blwyddyn i lywio'r broses o baratoi cyllideb y Comisiynwyr. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fydd wedi cytuno ar yr amserlen y mae'n bwriadu ei mabwysiadu.'.*[24]

**42.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn.

**43.** Mewn gohebiaeth ysgrifenedig, mae'r Comisiynydd yn nodi ymgysylltu da â swyddogion Llywodraeth Cymru ond dywedodd, "nid yw penderfyniadau Gweinidogol wedi'u gwneud eto ar gyfer y flwyddyn nesaf".[25] Ychwanegodd yn ddiweddarach "…mae'r broses yn ei gwneud yn anodd inni gynllunio'n ddigonol ar gyfer y flwyddyn ganlynol."

**44.** Yn yr un llythyr mae'r Comisiynydd yn dweud:

*'Nid ydym wedi gweld newid sylweddol ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor ar ariannu Comisiynwyr. Nid oes gennym unrhyw arwydd o dderbyn lefel fwy cynaliadwy o gyllid fel yr awgrymwyd gan Bwyllgor ESJ, neu fel y gofynnwyd yn ein hamcangyfrif statudol.'*[26]

**45.** Rydym yn cydnabod yr anawsterau a gyflwynir gan y broses o osod cyllideb a'r ansicrwydd y mae hyn yn ei greu i swyddfa'r Comisiynydd. Rydym hefyd yn ymwybodol o ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar yr Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru o'r ansicrwydd y mae'n ei wynebu o ystyried y ffaith nad yw ei chyllidebau drafft a therfynol yn gallu cael eu

---

[23] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru, paragraff 36
[24] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru, Argymhelliad 1
[25] Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23, 5 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)
[26] Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23, 5 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)

cadarnhau nes bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi dyddiad ei digwyddiad cyllidol yn yr hydref.[27]

**46.** Dim ond ar yr adeg hon, yn hwyr yn nhymor yr hydref, y mae Gweinidogion yn cael gwybod union fanylion setliad cyllideb Cymru. Mae Llywodraeth Cymru ei hun yn cydnabod ac yn rhannu pryderon y Comisiynwyr wrth lunio cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol pan maent yn cael gwybod manylion setliad terfynol ei chyllideb ar adeg mor hwyr. Mae cyrff a noddir gan y cyhoedd, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector yn wynebu heriau tebyg.[28]

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pwyso ar Lywodraeth y DU am amserlen gliriach ar gyfer darparu gwybodaeth bob blwyddyn i lywio'r broses o baratoi'r gyllideb. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi manylion i ni am sut mae'n cysylltu â Llywodraeth y DU i gael mwy o eglurder a sicrwydd ynghylch cyllid.

[27] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru, Ymateb Llywodraeth Cymru, 29 Awst 2023
[28] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru, Ymateb Llywodraeth Cymru, 29 Awst 2023

# 4. Defnyddio adnoddau

## Cyllid

**47.** Ers 1 Chwefror 2022, mae pob un o'r pedwar Comisiynydd yng Nghymru wedi cael eu cynnwys yn ffin gyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn effeithio ar gyllideb a threfniadau rheolaeth ariannol y Comisiynwyr, megis cyfyngu ar falansau arian parod a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn.

**48.** Yn 2022-23, dyrannodd Llywodraeth Cymru £1.924 miliwn i swyddfa'r Comisiynydd, gan gynnwys:

- Cyllid sylfaenol o £1.592 miliwn;
- Cyllid ar gyfer yr aliniad cydraddoldeb cyflog o £32,000; a
- Gyda chytundeb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio nad ydynt yn fwy na £300,000.[29]

**49.** Ar gyfer 2021-22, y dyraniad cyllid oedd £1.802 miliwn[30]. Gwnaethom archwilio sut roedd swyddfa'r Comisiynydd wedi defnyddio'r adnoddau oedd ar gael iddi yn 2022-23. Roedd gennym ddiddordeb arbennig yn y modd yr oedd y swyddfa, yn ystod y cyfnod hwn a chyda cytundeb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn ac arian parod i ategu cyllid gan Lywodraeth Cymru ac incwm arall.

**50.** Clywsom sut y defnyddiwyd yr arian hwn yn bennaf i ariannu tîm cyrff cyhoeddus y swyddfa, sy'n darparu cyswllt uniongyrchol â'r cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf. Mae aelod o'r tîm sy'n gwasanaethu pob rhanbarth o Gymru ac mae person cyswllt ar gyfer y cyrff cenedlaethol. Dywedwyd wrthym fod y cyllid hefyd wedi cyfrannu at swydd tymor byr i weithio ar gydraddoldeb a bod y swyddfa wedi recriwtio partner cynhwysiant amrywiaeth, a fu'n gweithio i helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac i helpu gydag amrywiaeth.[31]

**51.** Nodwyd gennym fod cyfanswm costau gweinyddol y swyddfa wedi gostwng £105,000 yn 2022-23 o gymharu â 2021-22. Fe wnaethom gwestiynu hyn a gofyn am gynaliadwyedd y lefel is o wariant. Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod y gostyngiad mewn costau yn

[29] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 78
[30] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 78
[31] Cofnod y Trafodion, paragraffau 64-65

deillio o symud swyddfa, gyda gostyngiad mewn gofod a chynnwys biliau yng nghostau rhentu'r swyddfa newydd[32]. Ychwanegodd 'rydym yn gobeithio y bydd hynny'n parhau'.

**52.** Mewn cyferbyniad, fe nodom fod gwariant ar deithio a chynhaliaeth (wedi'i gynnwys mewn costau gweinyddol) wedi cynyddu £16,000 i £37,000 yn 2022-23 o'i gymharu â 2021-22, sy'n fwy na'r lefel cyn y pandemig (£25,000 yn 2019-20). Gwnaethom ofyn pam yr oedd hynny.

**53.** Dywedwyd wrthym fod costau teithio a chynhaliaeth wedi cynyddu oherwydd bod teithio o amgylch Cymru wedi ailddechrau, ar ôl y pandemig, ond hefyd am fod swyddogion wedi mynd i COP27 yn yr Aifft. Esboniodd y Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

> *"… most of the money we spend on international travel is part of an agreement with Welsh Government, and there is specific money attached to that".*[33]

**54.** Fodd bynnag, dywedodd y Comisiynydd, er ei fod yn credu bod gwaith rhyngwladol ei swyddfa yn bwysig, ei fwriad oedd newid y dull a ddilynir o ran teithio rhyngwladol, gan nodi:

> *"… I want to be very careful about when I travel internationally, particularly if it involves flying, and so the process that we brought in is to have a very clear outcomes-led process. So, understanding the outcomes that we would achieve by undertaking this international trip. Could it be achieved remotely, virtually, in other ways?"*[34]

**55.** Eglurodd y Comisiynydd fod ei swyddfa eisoes wedi gwrthod gwahoddiadau i hedfan i ddigwyddiadau yn ystod y misoedd diwethaf, er mwyn cyfyngu ar faint o hedfan a wneir gan y swyddfa.[35]

**56.** Cynhyrchodd swyddfa'r Comisiynydd werth incwm o bron £400,000 yn 2022-23, a darparodd Llywodraeth Cymru £329,000 ohono fel cyfraniadau i brosiectau ar y cyd ac Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol.

[32] Cofnod y Trafodion, paragraff 69
[33] Cofnod y Trafodion, paragraff 71
[34] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 74
[35] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 74

Gwnaethom ofyn a oedd y cyllid hwn yn cael ei gytuno bob blwyddyn neu a oedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gymorth tymor hwy.

**57.** Eglurodd y Comisiynydd fod y cyllid yn cael ei gytuno bob blwyddyn ac fe ddenodd yr Academi Arweinyddiaeth gyllid nid yn unig gan Lywodraeth Cymru ond hefyd gan y sector preifat a'r trydydd sector.[36]

**58.** Tynnodd y Comisiynydd sylw hefyd at y sefyllfa gyllido anodd iawn y mae ei swyddfa, yn ogystal â gweddill y sector cyhoeddus, yn ei hwynebu.[37] Nododd fod cyfleoedd i'w swyddfa gyflawni yn erbyn dyletswyddau a phwerau'r swyddfa a gallu denu cyllid o rywle arall.[38]. Eglurodd fel a ganlyn:

> *"… there's already been great success with the academy, as well as the funding for contracts from Welsh Government. But I think there may be opportunities to do that more broadly, so that we use the money from the core funding from Welsh Government, in line with what it is meant to be used for, in terms of the delivery of our work, but that might be supplemented-not in a for-profit way, but in a way to cover our costs-so that we can use the skills and expertise of the team to reach more people."*[39]

**59.** Rhoddodd y Comisiynydd fanylion pellach i ni mewn gohebiaeth ysgrifenedig ynglŷn â'r cyfleoedd iddo gyflawni yn erbyn dyletswyddau a phwerau ei swyddfa, ac i allu denu cyllid o rywle arall.[40]

**60.** Yn y llythyr hwn, dywedodd y Comisiynydd, dros y blynyddoedd, fod y swyddfa wedi sicrhau adnoddau ychwanegol, yn bennaf trwy bartneriaethau a secondiadau a chodi tâl am wasanaethau. Mae'r Comisiynydd yn bwriadu edrych ar ddatblygu model ar gyfer codi tâl am wasanaethau i gynhyrchu adnoddau ychwanegol yn y dyfodol, ond nid yw'r gwaith hwnnw wedi dechrau eto[41].

**61.** Disgrifiodd y llythyr ddwy raglen benodol barhaus sydd wedi llwyddo i hyrwyddo datblygu cynaliadwy:

[36] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 79
[37] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 80
[38] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 80
[39] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 80
[40] Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23, 5 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)
[41] Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23, 5 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)

- Yr Academi Arweinyddiaeth: Mae swyddfa'r Comisiynydd yn rhedeg y drydedd academi ar hyn o bryd. Mae pob academi yn hyfforddi 30 o arweinwyr y dyfodol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol mewn sgiliau arwain i gefnogi cyflawni'r nodau llesiant. Mae'r swyddfa yn codi arian ar gyfer y rhaglen hon, sy'n costio tua £180,000 bob blwyddyn, gan godi'r arian o'r sector cyhoeddus a phreifat.

- Rhaglen Ryngwladol Llywodraeth Cymru: fel partner strategol i dîm rhyngwladol Llywodraeth Cymru, mae swyddfa'r Comisiynydd wedi cael cyllid penodol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf i redeg rhaglen i hwyluso arferion da a chyfnewid gwybodaeth rhwng cyrff cyhoeddus Cymru a'u cymheiriaid byd-eang, yn flynyddol. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol (2023-24), cafodd y swyddfa £200,000 ar gyfer y rhaglen ryngwladol.

## Staff

**62.** O'r gweithlu ar 31 Mawrth 2017, roedd 15 allan o 26 staff (neu 57.7 y cant) ar gontractau tymor penodol.[42]

**63.** Yn 2018, argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus fod y Prif Gomisiynydd yn gwerthuso cyfran y secondiadau yn ei swyddfa [Argymhelliad 7].[43]

**64.** Mewn ymateb, dywedodd y Comisiynydd ei bod wedi gwneud penodiadau parhaol i rolau craidd lle'r oedd hi'n credu bod angen busnes clir a pharhaus am barhad.[44] Nododd hefyd fod secondiadau a phartneriaethau cydweithredol yn ffordd ddoeth o ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, gan ganiatáu iddi ddenu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad a phersbectif newydd.

**65.** Ychwanegodd fod gweithio gydag eraill trwy bartneriaethau, cydweithrediadau a secondiadau yn bolisi hirdymor ond y byddai'n gwerthuso ac yn diweddaru ei effaith ar allbynnau ac effeithlonrwydd y sefydliad fel rhan o'r broses adrodd flynyddol.

**66.** Gwnaethom nodi fod dros 40 y cant o'r staff, a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2023, ar gontractau cyfnod penodol ac, yn ystod 2022-23, fod chwe aelod o staff wedi gadael ar ddiwedd eu tymhorau. Gwnaethom ofyn i'r Comisiynydd a oedd wedi

[42] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer y cyfnod 1 Chwefror 2016 tan 31 Mawrth 2017
[43] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Craffu ar Gyfrifon 2016-17, Chwefror 2018
[44] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Ymateb i Adroddiad Craffu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gyfrifon 2016-17.

gwerthuso effaith defnyddio contractau cyfnod penodol ar allbynnau ac effeithlonrwydd y swyddfa.

**67.** Cadarnhaodd nad oedd wedi gwneud hynny a'i farn bersonol oedd nad oedd contractau tymor penodol yn sefyllfa ddelfrydol[45]. Ychwanegodd:

> *"What we are currently looking at is a reorganisation of the organisation, a redesign of the organisation in line with the new strategy. And, as part of that process, which we're just about to embark on, we'll be looking at how we limit the number of fixed-term contracts so that we don't have so many people on those sorts of arrangements".*[46]

**68.** Dywedodd wrthym hefyd fod gan y swyddfa gyfradd gadw dda iawn i gydweithwyr, waeth beth yw'r trefniadau contract tymor byr ac nad oedd cyfradd trosiant uchel na chyfradd absenoldeb uchel.[47] Dywedodd fod hyn yn arwydd o ddiwylliant da o fewn y sefydliad.

**69.** Mae'r ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn nodi:

> *'Mae'n bolisi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig y dylai fod gan bob adran gyfarwyddwyr cyllid proffesiynol sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Parhaol gyda sedd ar y bwrdd adrannol, ar lefel sy'n cyfateb i aelodau eraill y bwrdd. Mae hyn yr un mor gymwys i Weinyddiaethau Datganoledig. Mae'n arfer da i bob sefydliad arall yn y sector cyhoeddus wneud yr un peth, a gweithredu i'r un safonau'.*[48]

**70.** Gwnaethom nodi, o wybodaeth yn Adroddiad Taliadau'r Comisiynydd, fod bwlch rhwng y Cyfarwyddwr Cyllid yn gadael y sefydliad ym mis Mehefin 2021 a'r Pennaeth Cyllid yn dechrau ym mis Medi 2022. Gwnaethom ofyn sut y cafodd y bwlch hwn ei reoli.

**71.** Eglurodd Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ei bod wedi ymgymryd â llawer o'r swyddogaethau, a bod y swyddfa wedi cyflogi ymgynghorydd profiadol iawn i gyflenwi ar gyfer y cyfnod dros dro.[49]

[45] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 147
[46] Cofnod y Trafodion, paragraff 147
[47] Cofnod y Trafodion, paragraff 147
[48] Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru - Ionawr 2016, Atodiad 4.1
[49] Cofnod y Trafodion, paragraff 171

## Arferion gwaith

**72.** Mae swyddfa'r Comisiynydd yn gwreiddio wythnos waith fyrrach yn ei diwylliant, gan adolygu canlyniadau ei chynllun peilot yn ystod y pandemig.[50] Mae wedi gweithredu'r hyn sy'n cyfateb i wythnos pedwar diwrnod, heb golli dim cyflog. Mae'r Comisiynydd yn dweud bod y 'ffordd drawsnewidiol hon o weithio wedi gweld cynnydd yn ein llesiant tîm a hefyd wedi helpu ni i recriwtio a chadw pobl / talent anhygoel'[51].

**73.** Fe wnaethom nodi hyn a gofyn pa dystiolaeth oedd gan y Comisiynydd i'w gefnogi.

**74.** Roedd y Comisiynydd yn teimlo bod y cyfraddau cadw, canlyniadau arolygon staff, a lefelau absenoldeb isel yn dangos tystiolaeth o hyn. Fodd bynnag, ychwanegodd ei fod yn adolygu sut yr oedd y dull yn gweithio oherwydd ei fod yn arloesol, a bod angen sicrhau ei fod yn effeithlon ac yn effeithiol.

**75.** Nododd y Comisiynydd, hyd yn hyn, bod y dull wedi bod ychydig yn anghytbwys, o ran y ffaith bod rhai staff yn gallu elwa arno, tra na all eraill am eu bod yn rhy brysur.[52]

**76.** Gwnaethom ofyn i'r Comisiynydd egluro 'r dyddiau a'r oriau gwaith newydd. Fe wnaethom hefyd gwestiynu a oedd gwelliant mewn cynhyrchiant i wneud yn iawn am y diffyg mewn oriau a weithiwyd[53].

**77.** Esboniodd y Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nad oedd yr wythnos waith fyrrach yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth staff. Mae'n cael ei dreialu fel arwydd o ewyllys da neu brawf[54]. Clywsom:

> *"So, we let our colleagues decide on the patterns they want to use, and it's something that will be evaluated in the review as well. So, some have shorter days; some try to work over four days instead of five. So, we are seeing lots of different patterns emerging".*[55]

**78.** Ail-bwysleisiodd y Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol na all llawer o gydweithwyr ei wneud oherwydd llwythi

[50] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 57
[51] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 59
[52] Cofnod y Trafodion, paragraffau 152 a 154
[53] Cofnod y Trafodion, paragraff 156
[54] Cofnod y Trafodion, paragraff 157
[55] Cofnod y Trafodion, paragraff 157

gwaith a bod angen i swyddfa'r Comisiynydd ddeall hyn er mwyn galluogi mwy o bobl i gymryd rhan a sicrhau gwell cynhyrchiant. Awgrymodd, yn bwysicaf oll, pe bai'r dull hwn yn cael ei wneud yn dda, bod y dystiolaeth yn dangos cynnydd mewn cynhyrchiant.[56]

## Cyfansoddiad staff a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau

**79.** Gwnaethom nodi, o ran cyfansoddiad staff y Comisiynydd ar 31 Mawrth 2023, fod 73 y cant yn fenywod a 27 y cant yn ddynion.[57]

**80.** Roedd y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau ar gyfer 2022-23 o blaid dynion o 1 y cant. Dywed y Comisiynydd fod hyn oherwydd er ei fod yn cyflogi mwy o fenywod na dynion, mae gan y sefydliad fwy o fenywod mewn rolau gradd is.[58]

**81.** Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau oedd 4 y cant.[59] Gellir egluro hyn hefyd oherwydd y ffaith bod gan y swyddfa mwy o staff benywaidd mewn rolau gradd is. Mae'r Comisiynydd yn nodi bod y swyddfa wedi cynnal nifer o interniaethau â thâl eleni a oedd wedi'u meddiannu gan ferched yn bennaf.[60]

**82.** Gwnaethom ofyn i'r Comisiynydd a oedd yn poeni am y bwlch cyflog a sut mae'n asesu'r cynnydd y mae'r swyddfa wedi'i wneud ar gynyddu amrywiaeth y gweithlu.

**83.** Dywedodd y Comisiynydd fod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gwbl sylfaenol i'w werthoedd[61], gan ychwanegu:

> *"… the pay gap within this organisation is much smaller than the national average…[the] mean pay gap…is at 1 per cent, so it's a lot smaller than the national pay gap".*[62]

**84.** Eglurodd y Comisiynydd fod gwaith wedi'i wneud i gynyddu amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y gweithlu. Dywedodd wrthym fod gan ei swyddfa nifer uchel o staff, tua 17 y cant, o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol.[63]

---

[56] Cofnod y Trafodion, paragraff 157
[57] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 95
[58] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 93
[59] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 93
[60] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 93
[61] Cofnod y Trafodion, paragraff 175
[62] Cofnod y Trafodion, paragraff 175
[63] Cofnod y Trafodion, paragraff 175

**85.** Fodd bynnag, dywedodd hefyd mai un o'r meysydd lle nad oeddent yn gwneud cystal ag y gallant oedd pobl anabl a chael mwy o bobl anabl o fewn y gweithlu.[64] Roedd mwy yn cael ei wneud i ddenu pobl anabl i'r gweithlu.[65]

## Ein barn ni

**86.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth fod dros 40 y cant o'r staff, a gyflogwyd ar 31 Mawrth 2023 gan swyddfa'r Comisiynydd, ar gontractau cyfnod penodol ac, yn ystod 2022-23, gadawodd chwe aelod o staff ar ddiwedd eu tymhorau.

**87.** Ychwanegodd llythyr at y Pwyllgor gan y Comisiynydd, ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, y byddai pum aelod o staff yn gadael ddiwedd mis Mawrth 2024 yn dilyn yr ad-drefnu. Nodwn fod hyn gyfwerth ag un o bob chwech o'r nifer sydd yn eu swyddi ar 31 Mawrth 2023, sy'n gyfran sylweddol.

**88.** Ar ben hynny, mae dau berson wedi lleihau eu horiau. Mae'r Comisiynydd yn nodi bod newidiadau ad-drefnu wedi'u gwneud ar wahanol lefelau, o'r Uwch Dîm Arwain i'r Tîm Cymorth.[66]

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi rhagor o wybodaeth i ni am ad-drefnu ei strwythur staffio, y costau cysylltiedig, trosolwg o'r prosesau i gytuno ar y newidiadau hyn a sicrwydd bod ganddo ddigon o staff wrth symud ymlaen.

**89.** Nodwn y trefniadau yn dilyn ymadawiad y cyn Gyfarwyddwr Cyllid a phenodiad dilynol y Pennaeth Cyllid, sy'n aelod o Uwch Dîm Arwain y Comisiynydd. Fodd bynnag, byddem yn croesawu gwybodaeth am y newid i deitlau swyddi.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi manylion i ni am unrhyw newidiadau a wnaed i rolau a chyfrifoldebau'r Pennaeth Cyllid sydd newydd ei benodi a'r penderfyniad i newid teitl swydd y Cyfarwyddwr Cyllid. Gofynnwn i'r Comisiynydd roi sicrwydd bod y rôl newydd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

**90.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth am y cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu defnyddio gan swyddfa'r Comisiynydd yn 2022-23, yn bennaf i ariannu'r tîm cyrff cyhoeddus, sy'n darparu cyswllt uniongyrchol â'r cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf. Daeth y Pwyllgor a'n rhagflaenodd i'r casgliad nad oedd cyllideb y Comisiynydd ar

[64] Cofnod y Trafodion, 25 Hydref 2023, paragraff 175
[65] Cofnod y Trafodion, paragraff 175
[66] Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23, 5 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)

y pryd wedi rhoi digon o gapasiti i'w swyddfa i ddarparu'r lefelau o gymorth ymarferol a sector-benodol i gyrff cyhoeddus y maent wedi galw amdano i weithredu'r Ddeddf.[67] Felly, rydym yn pryderu am ddyfodol y gwaith hwn os nad oes digon o adnoddau ar gael i'w gefnogi y tu hwnt i'r 2022-23, yn enwedig y cymorth cyswllt i'r cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynghori a fydd yn gallu parhau i roi sicrwydd inni ynghylch y cymorth a ddarperir gan y tîm cyrff cyhoeddus i'r cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf, y defnyddiodd ei swyddfa ei chronfeydd wrth gefn ar eu cyfer yn 2022- 23.

**91.** Rydym yn nodi'r cyfleoedd i'r Comisiynydd gyflawni yn erbyn dyletswyddau a phwerau ei swydd a gallu denu cyllid o rywle arall.

**92.** Mae gennym ddiddordeb yn y modd y mae'r Comisiynydd yn bwriadu edrych ar ddatblygu model ar gyfer codi tâl am wasanaethau i gynhyrchu adnoddau ychwanegol a byddem yn croesawu diweddariad ar hyn unwaith y bydd cynnydd wedi'i wneud.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn rhoi diweddariad ysgrifenedig i'r Pwyllgor ymhen chwe mis ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan ei swyddfa i ddatblygu model ar gyfer codi tâl am wasanaethau i gynhyrchu adnoddau ychwanegol.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn diweddaru'r Pwyllgor ymhen blwyddyn ynghylch cyflwyno Academi Arweinyddiaeth ei swyddfa a Rhaglen Ryngwladol Llywodraeth Cymru.

**93.** Rydym yn croesawu dull arloesol y Comisiynydd o wreiddio wythnos waith fyrrach yn niwylliant ei swyddfa. Rydym yn cefnogi mesurau i gynyddu llesiant staff a gwella recriwtio a chadw. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod gan y Comisiynydd ddigon o dystiolaeth i gefnogi'r honiad bod y cynllun peilot hwn wedi bod yn drawsnewidiol. Rydym hefyd yn pryderu nad yw'n hygyrch i'r holl staff yn ei swyddfa.

**94.** Dywedodd y Comisiynydd wrthym ei fod yn adolygu sut roedd y dull yn gweithio oherwydd bod angen sicrhau ei fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn hygyrch.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn rhannu gyda'r Pwyllgor ganlyniadau'r adolygiad sy'n cael ei gynnal o'r fenter wythnos waith

[67] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yn hyn (Mawrth 2021), Casgliad 8

fyrrach sy'n cael ei gweithredu yn ei swyddfa. Hoffai'r Pwyllgor hefyd weld tystiolaeth gliriach o sut mae'r fenter hon yn arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant a llesiant staff.

**95.** Rydym yn falch bod Swyddfa'r Comisiynydd wedi gwneud gwaith i gynyddu amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ei gweithlu. Rydym yn croesawu'r ffaith bod gan ei swyddfa nifer uchel o staff o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol. Fodd bynnag, nodwn fod y Comisiynydd yn ceisio cynyddu nifer y staff anabl a bod mwy o waith yn cael ei wneud i ddenu pobl anabl i'r gweithlu.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor, ymhen blwyddyn, ar y gwaith a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i ddenu a recriwtio pobl anabl yn y gweithlu yn Swyddfa'r Comisiynydd.

# 5. Llywodraethu

## Archwilio mewnol

**96.** Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23, dywed y Comisiynydd bod Archwilio Mewnol wedi cyflawni "rhaglen waith lawn" yn 2022-23, gan gynnal tri archwiliad mewnol: rheolaethau ariannol allweddol; partneriaethau; ac adnoddau dynol.[68] Rhoddodd sicrwydd sylweddol ar y ddau gyntaf a sicrwydd rhesymol ar y trydydd. Yn 2021-22, cwblhaodd Archwilio Mewnol chwe archwiliad mewnol, gan gynnwys rheolaethau ariannol allweddol.[69] Gostyngodd gwariant yn ymwneud â thâl Archwilwyr Mewnol £4,000 o'i gymharu â 2021-22, i £7,000 yn 2022-23.

**97.** Roedd wyth o'r deuddeg argymhelliad y cytunwyd arnynt a wnaed mewn adroddiadau archwilio mewnol yn 2021-22 wedi'u gweithredu o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.[70] Byddai'r argymhellion sy'n weddill yn cael eu gweithredu erbyn dyddiad cau newydd ym mis Hydref 2023.

**98.** Gwnaethom holi pam mai dim ond tri archwiliad mewnol a gafwyd yn ystod 2022-23 o'i gymharu â chwech yn y flwyddyn flaenorol. Mewn gohebiaeth ysgrifenedig dywedwyd wrthym fod dau reswm dros hyn:

- Cafodd un archwiliad ei ohirio tan y flwyddyn ganlynol er mwyn sicrhau y byddai'n fwy ystyrlon. Roedd yr archwiliad seiberddiogelwch wedi'i ohirio oherwydd bod gwaith yn cael ei wneud i gael achrediad IASME Lefel 2 newydd a barn Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio'r Comisiynydd a'r tîm rheoli oedd y byddai'r archwiliad yn gwneud mwy o synnwyr ar ôl i achrediad IASME gael ei sicrhau.[71]

- Mae nifer yr archwiliadau yn y flwyddyn flaenorol wedi bod yn uwch o ganlyniad i gynnwys archwiliadau ychwanegol (gan gynnwys caffael).[72]

**99.** Yn ystod tystiolaeth lafar, rhoddodd y Comisiynydd sicrwydd inni fod y pedwar argymhelliad arall a wnaed yn yr adroddiadau archwilio mewnol yn 2021-22 bellach wedi'u rhoi ar waith.[73].

[68] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 79
[69] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 129
[70] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 83
[71] Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23, 5 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)
[72] Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Craffu ar Gyfrifon: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-23, 5 Rhagfyr 2023 (Saesneg yn unig)
[73] Cofnod y Trafodion, paragraff 140

## Polisi Caffael

**100.** Gwnaethom nodi, yn breifat, ar 26 Ionawr 2023, y materion a adroddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am brosesau caffael y Comisiynydd cyntaf.[74]

**101.** Roedd y Comisiynydd wedi cynnwys gwybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23 am y materion a nodwyd. Yn dilyn yr archwiliad o Adroddiad Blynyddol 2021-22, argymhellodd Archwilio Cymru y dylai'r Comisiynydd adolygu a chryfhau cydymffurfiaeth â'r Rheolaethau a'r Gweithdrefnau Ariannol sydd ar waith ar gyfer caffael. Yn benodol, er mwyn sicrhau bod yr holl Weithredoedd Tendrau Sengl a ddyfarnwyd yn cael eu cyfiawnhau a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn brydlon. Hefyd, bod yr holl benderfyniadau a chymeradwyaethau i ddyfarnu contractau yn cael eu dogfennu'n glir.

**102.** Cadarnhaodd y Comisiynydd ei fod wedi diweddaru ei bolisi caffael a bod y swyddfa wedi creu canllawiau i gefnogi ei weithrediad.[75] Gofynnir yn awr i ddarpar gyflenwyr ddatgan unrhyw risg bosibl o wrthdaro buddiannau canfyddedig neu wirioneddol, neu ragfarn wleidyddol. Mae ei swyddfa hefyd yn cofnodi cyfiawnhad ar gyfer yr holl Weithredoedd Tendrau Sengl, ac mae angen i bob un ohonynt gael eu cymeradwyo gan y Prif Swyddog Gweithredu a'r Dirprwy Gomisiynydd. Yn dilyn cytundeb, mae angen adrodd pob Gweithred Tendro Sengl dros £5,000, gyda chyfiawnhad priodol, i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae partneriaethau a threfniadau newydd hefyd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

**103.** Gwnaethom holi'r Comisiynydd pa gamau penodol a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â Gweithredoedd Tendrau Sengl. Eglurodd y Comisiynydd fod y polisi caffael wedi cael ei adolygu, bod prosesau wedi'u hegluro a bod hyfforddiant staff wedi'i ddarparu i sicrhau bod staff yn deall sut i gymhwyso'r polisi. Ychwanegodd y canlynol o ran y polisi:

> *"It's monitored closely, so that now, as our audit report has shown, it's being implemented effectively. The other assurance I can give you is that, as part of our internal audit, this year the internal auditors will look again at our procurement and buying just to keep an external eye on how it's working".*[76]

[74] Cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 26 Ionawr 2023, Eitem 7.1
[75] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 84
[76] Cofnod y Trafodion, paragraff 119

**104.** I fynd ar drywydd hyn ymhellach, gwnaethom ofyn pa gamau penodol yr oedd y Comisiynydd wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion gyda Gweithredoedd Tendrau Sengl a pha sicrwydd y gellid ei roi ynghylch y rheolaethau a oedd ar waith ganddo yn 2022-23, o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed.

**105.** Dywedwyd wrthym, fel rhan o'r broses dendro sengl, fod swyddfa'r Comisiynydd yn cynnal gwiriad marchnad i weld a yw'n talu pris priodol. Mae hyn yn golygu edrych ar y prisiau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r farchnad a pheidio â chodi gormod.[77]

## Risgiau

**106.** Mae Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd yn nodi ei ddull o reoli risg[78], gan nodi nad yw'n ceisio osgoi risg. Fel ei ragflaenydd, bydd yn mabwysiadu dull risg "agored neu flysiog" ar gyfer gwaith sy'n wynebu tuag allan gyda chyrff cyhoeddus eraill, gan yr ystyrir mai dyma yw'r "unig ffordd realistig o sicrhau'r newid sydd ei angen ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru". Mae'r swyddfa wedi mabwysiadu "ymagwedd fwy traddodiadol a gofalus at brosesau mewnol sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a diogelwch gwybodaeth".[79]

**107.** Gwnaeth y Comisiynydd adolygu a diwygio'r gofrestr risg strategol yn ystod 2023, gyda'r gofrestr a'r trefniadau adrodd newydd yn cael eu 'canmol' gan ei Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac Archwilio Cymru yn gofyn a ellid ei defnyddio fel arfer da.[80]

**108.** Cytunwyd ar wyth risg strategol newydd yn 2022-23 ond, yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno, nid yw'r Comisiynydd yn nodi unrhyw wybodaeth am y rhain, sut y gallant effeithio ar gyflawni ei amcanion, y tebygolrwydd y byddant yn digwydd a'u heffaith, ac unrhyw gamau lliniaru a rheoli risg gweddilliol.

**109.** Ar adeg ein sesiwn dystiolaeth, roedd gwefan y Comisiynydd yn cynnwys tudalen ar gyfer risgiau strategol y sefydliad.[81] Roedd yn ymddangos bod yr unig

[77] Cofnod y Trafodion, paragraff 121
[78] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 83
[79] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 83
[80] Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2022-2023, tudalen 83
[81] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Ein Risgiau Strategol

ddogfen a oedd ar gael yn rhestru chwe risg strategol allweddol a nodwyd gan y Comisiynydd cyntaf ar gyfer ei chyfnod yn y swydd.[82]

**110.** Gwnaethom ofyn i'r Comisiynydd am yr wyth risg strategol newydd a pham na nododd unrhyw wybodaeth amdanynt yn ei Adroddiad Blynyddol.

**111.** Dywedodd y Comisiynydd fod ei swyddfa wedi gwneud ymarfer cynhwysfawr i adolygu'r risgiau a'i bod am wella'r ffordd y mae'r gofrestr risg yn cael ei ffurfio, yn ogystal â chynnwys a sylwedd y risgiau.[83] Dywedwyd wrthym yn flaenorol fod gan swyddfa'r Comisiynydd gofrestr risg yn ogystal â chofnod risg i enw da, ond roedd y rhain bellach wedi'u huno a rhai risgiau newydd wedi'u creu. Dim ond dwy risg o'r hen gofrestr oedd wedi'u cadw a darparwyd i ni, yn gyfrinachol, fanylion yr hen risgiau a'r risgiau newydd.

**112.** Mae'n syndod bod y Comisiynydd wedi rhannu gwybodaeth am y risgiau y mae ei swyddfa yn eu hwynebu gyda ni yn gyfrinachol o ystyried bod cyrff cyhoeddus yn adrodd am y risgiau y maent yn eu hwynebu yn eu cyfrifon blynyddol. Mae hyn yn ofynnol gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, y mae'r Comisiynydd yn dweud bod yn rhaid iddo gydymffurfio ag ef fel y Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff gynnwys gwybodaeth am risgiau yn eu hadroddiadau perfformiad: crynodeb o'r prif risgiau yn y trosolwg perfformiad, gyda gwybodaeth fanylach am broffil risg y sefydliad yn y dadansoddiad perfformiad[84].

## Ein barn ni

**113.** Rydym yn croesawu'r gwaith dilynol a wnaed yn dilyn gwaith Archwilio Mewnol yn swyddfa'r Comisiynydd yn 2021-22 a'r cadarnhad bod yr holl argymhellion y cytunwyd arnynt bellach wedi'u gweithredu. Fodd bynnag, hoffem gael diweddariad ar nifer yr adroddiadau Archwilio Mewnol ym mlwyddyn ariannol 2023-24.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell bod Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi diweddariad i ni, ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023-24, am waith Archwilio Mewnol, gan gynnwys nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd.

**114.** O ystyried pryderon blaenorol ynghylch Gweithredoedd Tendrau Sengl, rydym yn fodlon bod swyddfa'r Comisiynydd wedi cymryd camau i wella ei phrosesau caffael. Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd Archwilio Mewnol yn cynnal

[82] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Datganiad gan y Comisiynydd ar Risgiau Strategol
[83] Cofnod y Trafodion, paragraff 130
[84] Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth: 2022-23, tudalen 30

adolygiad o'r trefniadau newydd yn 2023-24. Byddwn yn ymddiddori yn y canlyniadau ac unrhyw ganfyddiadau cysylltiedig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**115.** O ran risgiau, rydym yn siomedig, er y cytunwyd ar wyth risg newydd yn 2022-23, nad oes unrhyw wybodaeth am y rhain wedi'i nodi yn Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y gofynion i gynnwys gwybodaeth, fel y nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod y Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth am y risgiau a wynebir gan ei swyddfa yn ei Adroddiad Blynyddol, fel sy'n ofynnol gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol.

# 6. Y tu hwnt i 2022-23

## Cyllidebau

### 2023-24

**116.** Yn ei adroddiad, Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru (Gorffennaf 2023), gwnaeth y Pwyllgor hwn 16 argymhelliad i Lywodraeth Cymru ynglŷn ag ariannu Comisiynwyr. Roedd y rhain yn cynnwys argymhellion ynghylch amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth i lywio'r gwaith o baratoi cyllideb y Comisiynwyr a chadarnhau dyraniadau cyllid.

**117.** Gwnaethom ofyn hefyd am gadarnhad bod Amcangyfrif Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer 2022-23 wedi'i osod yn y Senedd, fel sy'n ofynnol o dan baragraff 19(3) o Atodlen 2 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**118.** Yn ei hymateb, ymddiheurodd Llywodraeth Cymru am yr amryfusedd. Nid oedd yr Amcangyfrif wedi'i osod gerbron y Senedd ar yr adeg y cytunodd Llywodraeth Cymru ar y cyllid ar gyfer 2022-23. Mae hyn wedi cael ei gywiro ers hynny.[85] Fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 11 Awst 2023.[86] Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu cadarnhau bod Amcangyfrif y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, 2023-24, wedi'i osod gerbron y Senedd.

**119.** Gwnaethom ofyn i'r Comisiynydd sut y mae cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, 2023-24, yn cymharu â'r hyn a nodir yn yr Amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn ariannol ac a oedd ei swyddfa wedi cael ei hysbysu am unrhyw ddiffyg.

**120.** Nododd y Comisiynydd ei bryderon am y flwyddyn ariannol i ddod, gan ddweud y canlynol:

> *"... we're very keen to ensure that the new public bodies that are due to come under the Act on 1 April do come under the Act. That will have implications for how we deliver things and how we prioritise, but I think it's very important that the public bodies – Transport for Wales, Social Care Wales and others, Qualification Wales – that were set up*

---

[85] Llythyr Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 29 Awst 2023
[86] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Amcangyfrif Statudol 2022-2023

> *since the legislation are subject to the Act in a way that the rest of the public bodies are".*[87]

**121.** Pwysleisiodd y Comisiynydd pa mor bwysig yw hi i'r cyrff hyn ddod o dan y Ddeddf, o ran yr agenda 'brys' ynghylch newid hinsawdd, yr amgylchedd, iechyd a'r economi. Ychwanegodd y byddai unrhyw oedi yn 'anfon y neges anghywir' ac y byddai'n edrych i ddod o hyd i ffordd, o fewn yr adnoddau sydd ar gael, i gefnogi'r cyrff cyhoeddus newydd sy'n dod o dan y Ddeddf, fel y cynlluniwyd ar 1 Ebrill 2024.[88]

### 2024-25

**122.** Gwnaethom ofyn i'r Comisiynydd a oedd yn fodlon â'r ymgysylltiad a gafodd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch cyllideb 2024-25 ac a fyddai goblygiadau pe na bai ei swyddfa yn cael cyllid ar gyfer yr wyth corff ychwanegol y mae'n ofynnol iddynt ddod o fewn cylch gorchwyl y Ddeddf.

**123.** Eglurodd y Comisiynydd fod ymgysylltu ynghylch y sefyllfa y gallai ei swyddfa fod yn ei hwynebu wedi bod yn dda iawn.[89] Fodd bynnag, ychwanegodd:

> *"The challenge that they have and that we have is the timescale. Because we don't have reserves, and because we don't get final confirmation until the Welsh Government budget is agreed, it makes it very difficult for us to plan the organisation well ahead".*[90]

**124.** Gosododd Llywodraeth Cymru Amcangyfrif Statudol y Comisiynydd ar gyfer 2024-25[91] ar 19 Rhagfyr 2023, yr un diwrnod ag y cyhoeddodd ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25[92].

**125.** Yn yr Amcangyfrif, mae'r Comisiynydd yn dweud "Ar gyfer 2024-25, gwariant adnoddau net ar gyfer gwaith craidd yn ôl fy amcangyfrif (a'm cais) yw £1,910,600 (cyfalaf a refeniw)".[93] Ychwanegodd:

> *"Gan mai hon yw fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd, gall y byddaf yn dymuno cyflwyno amcangyfrif gwahanol y flwyddyn nesaf ar ôl i mi*

[87] Cofnod y Trafodion, paragraff 189
[88] Cofnod y Trafodion, paragraff 189
[89] Cofnod y Trafodion, paragraff 191
[90] Cofnod y Trafodion, paragraff 191
[91] Amcangyfrif Statudol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer 2024-25
[92] Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25
[93] Amcangyfrif Statudol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer 2024-25

> *arsylwi a myfyrio ar faint o adnoddau y byddai ar fy swyddfa eu hangen i gyflawni fy nyletswyddau a fy strategaeth newydd."*[94]

**126.** Yn ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid adnoddau o £1.610 miliwn i'r Comisiynydd.[95]

**127.** Roedd hyn yn cymharu â dyraniad adnoddau (neu refeniw) o £1.695 miliwn ar gyfer y Comisiynydd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 (Mehefin 2023).[96]

**128.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd am yr adolygiad o'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer ei swyddfa ar gyfer 2024-25 yr awgrymodd y gallai ei gynnal ar ôl cyhoeddi ei strategaeth newydd a'r weledigaeth hirdymor ar gyfer ei swyddfa, 'Cymru Can'. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys asesiad o'r effaith o ystyried bod y cyllid a nodir yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn llai na swm yr adnoddau y mae'r Comisiynydd yn gofyn amdanynt yn ei Amcangyfrif Statudol ar gyfer y flwyddyn.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiynydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw, fel yr awgrymodd efallai y byddai'n dymuno ei wneud, wedi adolygu'r adnoddau y gofynnwyd amdanynt ar gyfer 2024-25 yn dilyn cyhoeddi ei strategaeth newydd a'r weledigaeth hirdymor ar gyfer ei swyddfa, 'Cymru Can'. Dylai hyn gynnwys asesiad o'r effaith o ystyried bod y cyllid a ddyrannwyd yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn llai na swm yr adnoddau y mae'r Comisiynydd yn gofyn amdanynt yn ei Amcangyfrif Statudol.

---

[94] Amcangyfrif Statudol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer 2024-25
[95] Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023
[96] Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 (Mehefin 2023)

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **25 Hydref 2023** | **Derek Walker**<br>Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>**Marie Brousseau-Navarro**<br>Prif Swyddog Gweithredu a Dirprwy Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |

# Atodiad 1: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
| --- | --- |
| Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru at y Cadeirydd | 5 Rhagfyr 2023 |